# CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID
# LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL


| | |
|---|---|
| Clerc | 26 Stryd Fawr |
| *Clerk* | Bethesda |
| **Caroline Jones** | Gwynedd |
| 01248 602131 | LL57 3AE |
| CyngorLlanllechid@ogwen.org | |


**Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd ar nos Iau y 12fed o Fehefin 2025 am 1900yh.**

**1. PRESENNOL**

**Ward Llanllechid Isaf**
Y Cynghorydd Wyn Bowen-Harris
Y Cynghorydd Evan Jones
Y Cynghorydd Robin Williams
Y Cynghorydd Alun Thomas
Y Cynghorydd Geraint Hughes

**Ward Llanllechid Uchaf**
Y Cynghorydd Kevin Williams
Y Cynghorydd Dafydd K Jones

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Yr Is gadeirydd, Y Cyng. Robin Williams

**2. Trafodaeth gyda'r Cynghorydd Sîr Rebeca Roberts (BR).**

Cafwyd grynodeb o gefndir y Gronfa Waddol ac y Gronfa Budd Cymunedol. Mae BR yn ymgyrchu i greu Gronfa Waddol ar wahan i Zip World. Mae hi'n chwilio am gefnogaeth at yr ymgyrch. Trafodwyd gwahaniaethau rhwng y ddau gronfa, ac esboniodd Beca fanteision y Gronfa Waddol fel y mae hi'n eu gweld.
Cynhelir cyfarfod ddilynol gan Zip World lle trafodwyd eu bid am uchelgais a cynllun sgiliau ymhlith eitemau eraill. Nodir Y Cyng Geraint Hughes fod hyn yn gweithio y ddwy ffordd.
Yr argymhelliad yw bod CC Llanllechid yn ymgysylltu gyda Zip World.
Cafwyd trafodaeth buddiol. BR yn hapus i ateb unrhyw gwestiynau ac yn hapus i fynychu unrhyw cyfarfod Cyngor yn y dyfydol.

**3. Ymddiheuriadau**
Y Cynghorydd Rhydian Williams
Y Cynghorydd Lowri Evans

Arwyddwyd gan y Cadeirydd ___________________________________

**4. Cofnodion**

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 8fed o Fai, 2025.

**5. Materion yn codi o'r cofnodion**

**5.1 Arwyddion Maes y Groes –**Cafwyd ddiweddariad gan Meirion Macintyre Huws mai y syniad gwreiddiol oedd codi arwydd anstatudol gyda diwyg cwbl ar wahân, yn nodi lle mae Maes y Groes. Ond erbyn hyn nid yw Priffyrdd yn awyddus i godi arwyddion anstatudol drwy'r sir felly awgrymodd Prifyrdd y dylid mabwysiadu'r enw a'u wneud yn statudol. Nid oes gan y Cyngor y statws cyfreithiol i wneud hynny.
Mae trafodaeth felly ar y gweill. Disgwylir ddiweddariad.

**5.2 Bin Halen Bryn Derwas –** Ymateb wedi ei dderbyn gan Mr Ian Morgan, y pris diweddaraf am fin 340 litr oedd £362.67. (Mae hyn yn dyddio o 2022 felly bydd angen ei ddiweddaru). Opsiwn arall yw ail-leoli un o'r biniau presennol sydd ddim yn derbyn llawer o ddefnydd.
Y Clerc wedi cysylltu gyda Mr Morgan, ac mae o am drefnu ail-leoli bin halen Maes y Groes i Fryn Derwas.

**5.3 Tyllau yn y ffordd a dwr yn codi Lôn Aber Ogwen–** Y Clerc wedi cael diweddariad gan Ian Morgan, Cyngor Gwynedd ar yr 8/5/25. Mae'r arolygwyr ffyrdd yn ymwybodol o ddŵr yn rhedeg ar hyd ochr Lon Aberogwen a bydd ymchwiliad i ffynhonnell y dŵr yn cael ei gyflawni. Bydd unrhyw weithred yn ddibynnol ar ganlyniad yr ymchwiliad.

**5.4 Diffyg biniau ar lwybr beicio Wîg a diffyg bin yn y Gilfan gyferbyn ar yr A55 –** Y Clerc wedi bod mewn cysylltiad gyda Mr Peter Simpson, Rheolwr Gwasanaethau Stryd. Y sefyllfa bresenol yw nad yw'n glir pwy sydd gyda cyfrifoldeb dros y llwybr beicio. Trafodwyd y pwnc o osod bin yn y cilfan. Mae cyfarfod gyda'r Uwch Reolwr Cefnffyrdd wedi ei drefnu, lle bydd y cais yn cael ei ystyried yn fanwl gan gynnwys asesiad risg. Unawgrym yw treialu bin yn y cilfan. Disgwylir diweddariad unwaith bydd penderfyniad wedi ei wneud. Y Clerc i ddilyn i fyny.

**5.5 Ffens bren ger pont Allt Ty'n Hendre –** Diweddariad gan Ian Morgan, Ian Morgan, Cyngor Gwynedd ar y 8/5/25 Mae'r gwaith hwn yn parhau i fod ar ei rhaglen,
Y Clerc i anfon antgoffyn i Gyngor Gwynedd pob 3 mis.

**5.6 Lon Wig -** Adroddwyd fod terfyn cyflymder y llwybr yn 60mya, gyda cerddwyr, beicwyr a cerbydau ar yr un llwybr. Derbynwyd ymateb gan Lywodraeth Cymru;

'Y terfyn cyflymder ar y darn newydd o ffordd sirol yw 40mya ac mae'n gyson â therfynau cyflymder ar y ffyrdd y mae'n cysylltu â nhw, ffordd i Llandygai a Hendre Hall/ Fferm Tyn Hendre/ mynediad i'r A55. Mae'r ffordd sirol newydd yn cludo traffig cerbydau ysgafn gan mai dim ond fel mynedfa fferm a mynediad i bedwar eiddo y'i defnyddir'

Y Clerc i ysgrifennu at Siân Gwenllian AS, i amlygu y sefyllfa.

**5.7 Torri gwair Bro Emrys –** Y Clerc wedi cysylltu gyda Cyngor Gwynedd am amcan bris.  Dim diweddariad.  Clerc i ddilyn i fyny.

**5.8 –**Sedd Wag Llanllechid Uchaf wedi ei ail hysbysebu.

**5.9 Wern bach –** Diweddariad gan Ian Morgan, Cyngor Gwynedd ar yr 8/5/25. Y gobaith yw ymchwilio pan mae'r tywydd yn sychach. Mae ar ei rhaglen gwaith ac yn ddibynnol ar y cyfalaf.

**5.10 Llwybr Tanybwlch –** Derbynwyd cwynion fod staff yn y ganolfan Outreach wedi bod yn troi pobl yn nol oddi ar lwybr cyhoeddus Tan Y Bwlch sy'n arwain fyny i'r mynydd.
Y Clerc wedi rhannu rhif ffôn Y Cyng Kevin Williams gyda Rob Jones, Cyngor Gwynedd i drafod.  Dim diweddariad. Y Clerc i ail-gysylltu gyda Rob Jones.

**5.11 Lôn Goed –** Lôn wedi culhau a drain wedi gordyfu  – Y Clerc wedi adrodd at Gyngor Gwynedd, a'r ymateb yw fod Swyddog o'r Adran Briffyrdd wedi bod allan yn asesu'r broblem. Nid yw'r mater yn cael ei ystyried fel un brys, ond mae trefniadau mewn lle i wneud y gwaith fel rhan o'n rhaglen waith rhaglenedig

**5.12 Eogiaiad Ogwen Bank** - Y Clerc wedi cysylltu ag Ynni Ogwen ynglŷn â'r problemau mae'r eogiaid yn eu cael i fyny'r afon yn Ogwen Bank. Nid ydynt yn ymwybodol o unrhyw rwystr i fudoledd yr eog. Y Clerc i ofyn wrth Y Cyng Dafydd Meurig (Ynni Ogwen) i gysylltu gyda Gwil Williams, Cymdeithas Pysgota Dyffryn Ogwen i drafod.

**6. Adroddiad Cyngor Sir, Y Cyng Dafydd Meurig.**
Dim adroddiad.

**7. Taliadau**

Awdurdodwyd y canlynol;

| | | |
|---|---|---|
| Rhydian Williams | Petrol Mower | £14.02 |
| Partneriaeth Ogwen | Stamps | £34.80 |
| Zurich | Yswiriant y Cyngor | £536.00 |

**8.  Y Mynydd**

Y Clerc i rannu rheolau mynydd newydd gyda'r porwyr.

Trafodwyd Swydd Bugail y Mynydd, a'r telerau. Yn dilyn y drafodaeth penderfynwyd y byddai'r Clerc yn cynnig y swydd i Idris Morris.

Adroddwyd fod Ffermwyr ifanc Dyffryn Ogwen wedi curo rali diweddar ffermwyr ifanc Eryri. Y tro cyntaf ers amser maith.

Eglurodd Y Cyng Kevin Williams fod Cynllun Cymunedol i ffermwyr ar y gweill gan y Llywodraeth. Mi fydd taliadau cydweithredol i deiliaid unigol hawliau pori a all fodloni'r meini prawf cymhwysedd ac hefyd cymdeithasau pori ar gyfer rheoli pori cydlynol. Bydd angen trafod yr opsiwn o sefydlu cymdeithas pori ac ymgynghori gyda'r porwyr.

**9. Cae Peldroed/Cae Chwarae Talybont**

Cynhelir cyfarfod is bwyllgor Cae Peldroed cyn y cyfarfod llawn lle cafwyd ddiweddariad ar ddatblygiad y cae gan Y Cyng Evan Jones.

- Grant Sector Wirfoddol Gwynedd, Cronfa Ffyniant Gyffredin 2025-26 iw gyflwyno erbyn 15/6/25. Mae angen cadarnhad gan Steffan Jones (Cyngor Gwynedd) cynlluniau y datblygiad ac ei gefnogaeth i'r prosiect wedi ei ddogfennu. Steffan Jones hefyd i gadarnhau y newidiadau gyda giatiau y cae. Polisi Iaith angen ei gymeradwyo, fel ofynnir yn y cais. Mi fydd Donna Watts (Partneriaeth Ogwen) yn cynorthwyo gyda'r cais

- Y Clerc wedi cadarnhau bod y polisi yswiriant sydd gan y Cyngor Cymuned yn yswirio'r cae pêl-droed a thorri'r glaswellt.

- Y Clerc i gysylltu gyda Mr Llifon Foulkes, Cyngor Gwynedd am feinciau.

- Y Clerc i rannu asesiad risg torri gwair y Cae Peldroed ac yr offer PPE.

**10. Llyfrgell Cymunedol**

Partneriaeth Ogwen wedi cael bil wedi ei ddiweddaru, ac wedi talu y ddyled. Y Clerc i wneud ymholiadau am gyfraniad y Cynghorau Cymuned.

**11. Polisi Iaith**

Gwnaed gwelliannau i Polisi Iaith drafft Cyngor Cymuned Llandygai ddiwallu anghenion Cyngor Cymuned Llanllechid. Cymeradwywyd y ddogfen.

**12. Gohebiaeth**

**12.1 Clybiau Ieuenctid Cymunedol -** Trafodwyd y cais am sefydlu Clwb Ieuenctid yn Llanllechid. Y Clerc i ofyn am fwy o wybodaeth ac os oes angen gyda Clwb Ieuenctid ym Methesda.
**12.2 Cynllun Datblygu Lleol Eryri Newydd (2026 - 2041) –** I gwblhau yn unigol
**12.3 Dragons Back Race 2025 –** Y Clerc i ymateb gan bwysleisio yr effaith sydd gan y ras ar y hel flyddynol.
**12.4 Eglwys Glanogwen, Grwp Gweithredol –** Awgrymwyd Partneriaeth Ogwen.

**12.5 Llyn Celanedd –** CC Ll yn hapus i gefnodi yr ymgyrch i newid yr enw.

**13. Adroddiadau gan Gynrychiolwyr**

Dim

**14. Ceisiadau a phenderfyniadau Cynllunio**

**C21/0078/21/CC**
Ogwen Bank, Bethesda
Torri a thocio coed sy'n destun gorchymyn gwarchod coed 3/TPO/GCC/17 (ail-gyflwyniad a diweddariad o gais rhif C20/0154/21/CC)
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C21/0099/21/CC**
Ogwen Bank, Bethesda
Mesurau i ddiogelu coed a gorchymyn coed arnynt yn ystod gwaith i uwchraddio'r parc carafanau
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C24/1128/21/CC**
Ogwen Bank, Bethesda
Cais i ymgymryd â gwaith i goed sy'n destun Gorchymyn Gwarchod Coed
**Penderfyniad** Ar y gweill

Trafodwyd y cais a phenderfynwyd gwrthwynebu. Y Cyng Robin Williams am ddrafftio'r gwrthwynebiad.

**C25/0230/21/CR**
Fferm Tyddyn Isaf, Tal y Bont
Codi estyniad unllawr cefn
**Penderfyniad** Ar y gweill

**Ceisiadau Newydd**

**C25/0276/21/DT**
Yr Efail Swynol, Llanllechid
Estyniad unllawr i ochr yr eiddo
**Penderfyniad** Ar y gweill

**15. Materion Brys/Eraill**

15.1 Adroddodd Y Cyng Geraint Hughes fod gordyfiant ar y Cornel rhwng Troead Talybont ac Y Llechen yn achosi peryglon ar y ffordd - Y Clerc i adrodd at Gyngor Gwynedd.

15.2 Adroddodd Y Cyng Alun Thomas fod y gwair angen ei thorri wrth cyffordd 12 ar yr A55 - Y Clerc i adrodd at Gyngor Gwynedd.

15.3 Y Clerc i adrodd at Gyngor Gwynedd tyllau ar y ffordd yn Maes Y Groes.

15.4 Mae Cyngor Cymuned Llanllechid yn pryderu am newidiadau ym mhatrwm diweddar yr Ymddiriolaeth Genedlaethol tuag at drefn tenantiaeth amaethyddol Dyffryn Ogwen gyda cymaint o denantiaid fferm yn rhoi gorau iddi.

**16. Adroddiad Llais Ogwan**

Cynhaliwyd cyfarfod mis Mehefin y Cyngor Cymuned ar Nos Iau 12fed o Fehefin.

Mae Cyngor Cymuned Llanllechid yn pryderu am newidiadau ym mhatrwm diweddar yr Ymddiriolaeth Genedlaethol tuag at drefn tenantiaeth amaethyddol Dyffryn Ogwen gyda cymaint o denantiaid fferm yn rhoi gorau iddi.

Hoffai'r Cyngor Cymuned longyfarch Clwb Ffermwyr ifanc Dyffryn Ogwen ar ei buddugoliaeth diweddar yn Rali Ffermwyr ifanc Eryri eleni.

Rydym yn estyn croeso i Idris Morris ar ei swydd newydd fel bugail mynydd. Mae ganddo fentor da gan mai ei dad, Richard Temple Morris oedd ei ragflaenydd.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Fercher Gorffennaf 23fed.

Arwyddwyd gan y Cadeirydd ___________________________________